



monmouthshire
sir fynwy

Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y
Rhadyr, Brynbuga, Sir Fynwy
NP15 1GA
Monmouthshire County Council
County Hall, Y Rhadyr, Usk,
Monmouthshire
NP15 1GA

Ffôn/Tel: 01633 644 644
Web/Gwefan: www.monmouthshire.gov.uk
Ein Cyf/Our ref:
Eich Cyf/Your ref:

Annwyl ymgynghorai,

Cynnig i sefydlu Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg drwy fodel egin / twf yn Nhrefynwy

Ysgrifennaf yn dilyn y broses ymgynghori statudol i'ch hysbysu o benderfyniad y Cyngor i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Nhrefynwy.

Byddwch yn ymwybodol o'm gohebiaeth flaenorol fod Cabinet y Cyngor wedi cyfarfod ar y 7^{fed} Mehefin 2023 a chytunodd i fwrw ymlaen i gamau nesaf y broses statudol, sef cyhoeddi hysbysiadau statudol ynghylch sefydlu egin-ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg o'r 1^{af} Medi 2024.

Cyhoeddwyd yr hysbysiadau statudol yn ffurfiol ar 19^{eg} Mehefin 2023 a chaniataodd gyfnod o 28 diwrnod ar gyfer unrhyw wrthwynebiadau statudol. Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 17^{eg} Gorffennaf 2023. Lluniwyd adroddiad gwrthwynebu yn manylu ar unrhyw wrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ochr yn ochr ag ymateb y Cyngor. Mae copi o'r Adroddiad Gwrthwynebu ar gael i'w weld ar-lein [Cynnig i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg - Monmouthshire](#).

Cyfarfu Cabinet y Cyngor eto ar y 6^{ed} Medi 2023 i ystyried cynnwys yr Adroddiad Gwrthwynebu a'r gwrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd. Gwnaethant y penderfyniad terfynol i fwrw ymlaen â sefydlu egin-ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg eginol o'r 1^{af} Medi 2024.

Wrth benderfynu ar y cynnig, rhoddodd y Cabinet ystyriaeth ofalus i'r rhesymau dros y cynnig a chytunodd y bydd sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Nhrefynwy yn sicrhau bod modd dysgu mwy o ddisgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu hardal leol, ac wrth wneud hynny, rhoi'r hyder i rieni ddewis addysg Gymraeg i'w plant.

Dyma'r rhesymau dros y penderfyniad mewn perthynas â'r ffactorau a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018:

- Mae'r cynnig yn dangos ein hymrwymiad i gynyddu nifer y plant sy'n cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac yn cyrraedd ein targedau a amlinellir yn ein Cynllun Strategol Addysg Gymraeg (CSCA). Mae hefyd yn cefnogi strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru - *Cymraeg 2050*.

- Mae datblygu addysg cyfrwng Cymraeg wedi bod yn flaenoriaeth ganolog i Sir Fynwy fel yr amlinellir yn ein holl Sefydliadau Addysg ac mae'n brif flaenoriaeth yn y cynllun presennol. Rydym yn cydnabod bod diffyg darpariaeth yn ardal Trefynwy ac o ganlyniad, mae disgyblion sy'n byw yn Nhrefynwy yn teithio pellter hir bob dydd i fynychu un o'n hysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, a dyma un o'r prif resymau y mae rhieni yn eu rhoi am beidio dewis addysg Gymraeg i'w plant.
- Bydd trydedd ysgol gynradd Gymraeg yn Sir Fynwy yn gosod yr Awdurdod mewn sefyllfa gref i gwrdd â'n targed o 120 o ddysgwyr derbyn erbyn diwedd y CSCA presennol yn 2031.
- Bydd lleoliad yr ysgol newydd yn nhref Trefynwy yn cynyddu dewis rhieni, fydd yn annog mwy o rieni i ddewis addysg Gymraeg oherwydd bydd yn lleihau'r angen i ddysgwyr deithio pellteroedd hir i gael mynediad i addysg Gymraeg yn Y Fenni.
- Mae'r Cyngor yn credu ei bod yn bwysig bod pob plentyn yn cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg ac yn cael ei ddysgu lle bynnag y bo modd yn eu cymuned leol.
- O ganlyniad i amseroedd teithio byrrach, disgwylwn i'r cynnig wella lles plant yn yr egin-ysgol yn sylweddol. O ganlyniad, rydym yn disgwyl i agweddau at ddysgu fod yn gadarnhaol a chael eu hadlewyrchu mewn lefelau uchel o bresenoldeb.
- Byddem yn disgwyl i'r safonau a'r cynnydd hwnnw o ddisgyblion yn yr egin-ysgol newydd fod yn unol â'n hysgolion presennol.
- Bydd profiadau addysgu a dysgu yn yr egin-ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn dilyn Cwricwlwm i Gymru gyda'r Gymraeg yn iaith addysgu a dysgu, rhywbeth nad yw ar gael ar hyn o bryd yn Nhrefynwy.

Yr eiddoch yn gywir,



Will McLean
Prif Swyddog, Plant a Phobl Ifanc